
Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd

Mai 2018



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Cefndir	2
Beth sy'n gweithio'n dda?	4
Beth yw'r rhwystrau rhag newid?	10
Pedwar cam datblygu'r cwricwlwm	12
Astudiaethau achos	16
Sail y dystiolaeth	18
Geirfa	19
Cyfeiriadau	21

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad arolwg hwn yn ymateb i gais am gyngor am newidiadau i'r cwricwlwm yn y sector cynradd gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2016-2017. Mae'r adroddiad wedi'i anelu at Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad a'r astudiaethau gofal cysylltiedig hefyd o ddiddordeb i benaethiaid a staff mewn ysgolion cynradd pan fyddant yn myfyrio ar eu darpariaeth bresennol o ran y cwricwlwm ac yn cynllunio ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm. Bydd pedwar cam datblygu'r cwricwlwm o ddiddordeb i benaethiaid a staff mewn sectorau ysgol eraill.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o sampl o ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw rhwng Ionawr a Gorffennaf 2017. Bu arolygwyr yn ystyried sut mae'r ysgolion yn addasu eu cwricwlwm yng ngoleuni diwygiadau presennol i'r cwricwlwm ac addysg. Mae'n darparu trosolwg o'r modd y mae ysgolion cynradd yn arfarnu, cynllunio, cyflwyno, monitro a mireinio eu cwricwlwm a'u dulliau addysgu ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad yn cysylltu â 20 o astudiaethau achos o ysgolion cynradd unigol ledled Cymru. Gallwch ddod o hyd i'r astudiaethau achos manwl trwy ddilyn y dolenni a ddarperir ar dudalen 15 isod. Mae'r astudiaethau achos yn dangos sut mae ysgolion cynradd yn addasu eu trefniadau cwricwlwm wrth iddynt ymateb i'r her i fodloni'r cwricwlwm newydd a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015). Maent yn darparu enghreifftiau o'r modd y mae ysgolion sydd ar wahanol gamau o ran datblygu'r cwricwlwm yn archwilio dulliau cwricwlaidd newydd a strategaethau addysgu cysylltiedig.

Wrth gynnal yr arolwg, bu arolygwyr yn cyfweld ag arweinwyr ysgol ynghylch ansawdd addysgu ac asesu, cynllunio'r cwricwlwm, profiadau dysgu cwricwlaidd ac allgyrsiol, datblygiad staff a materion arwain. Buont yn canolbwyntio ar dri chwestiwn allweddol, sef:

- Sut mae ysgolion yn arfarnu eu cwricwlwm i bennu beth sydd angen ei newid i gyflawni Cwricwlwm newydd i Gymru?
- Sut mae ysgolion yn ymateb i ganlyniadau arfarnu i gynllunio a datblygu cwricwlwm sy'n ddifyr a deniadol, un sy'n datblygu gallu a brwdfrydedd i gymhwyso gwybodaeth a medrau yn annibynnol?
- Sut mae arweinwyr yn monitro newid ac yn mynd â'u gwaith i'r cam nesaf?

Yn ystod yr arolwg, rhannodd arweinwyr eu profiadau yn agored a buont yn trafod yr effaith yr oedd cymorth ac arweiniad a gynigir trwy ddigwyddiadau dysgu proffesiynol, rhwydweithiau, gweithgorau, a phartneriaethau amrywiol, yn ei chael ar ddatblygu'r cwricwlwm. Roedd y cyfleoedd dysgu proffesiynol hyn yn cynnwys ysgolion fel gweithgorau sefydliadau dysgu, trefniadau cydweithio o ysgol i ysgol, arweiniad gan awdurdodau lleol a chonsortia, a chyfleoedd i ymgynghori â Llywodraeth Cymru.

Cefndir

Yn 2014, gofynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r Athro Donaldson gynnal adolygiad o drefniadau'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4. Mae'r adroddiad dilynol, sef Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), yn amlinellu cynigion ar gyfer cwricwlwm newydd sy'n adeiladu ar gryfderau presennol addysg Cymru. Mae'r adroddiad yn nodi pedwar diben sy'n darparu man cychwyn ar gyfer Cwricwlwm newydd i Gymru, sef:

- dysgwyr uchelgeisiol, medrus, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae adroddiad Donaldson yn cydnabod ei bod 'yn anochel y bydd y pedwar diben yn galw am ddefnyddio amrediad eang o ddulliau addysgu a dysgu' a bod 'cyd-ddibyniaeth sylfaenol rhwng dibenion y cwricwlwm ac addysgeg' (Donaldson, 2015, tt.63-64).

Yn 2014, cyhoeddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) adolygiad cynhwysfawr o addysg yng Nghymru ('Gwella ysgolion yng Nghymru: safbwynt OECD'). Cynigiodd yr adroddiad gyfres o argymhellion i gryfhau'r system addysg dros y tymor hir. Nododd yr adroddiad fod ysgolion yn wynebu heriau o ran gweithredu polisiau a fframweithiau, a bod graddfa'r diwygio dros raddfa amser fer yn golygu mai dim ond cael eu rhoi ar waith yn rhannol yr oedd rhai polisiau. Cyhoeddodd yr OECD adroddiad dilynol yn 2017, yn dwyn y teitl, 'Taith Diwygio Addysg Cymru: Asesiad polisi cyflym'. Mae'r adroddiad hwn 'yn dadansoddi'r diwygiadau a fabwysiadwyd er 2014 ac yn cynnig argymhellion i lywio'r camau nesaf' (OECD, 2017, tud.7).

Er 2017, mae ychydig o ysgolion ledled Cymru wedi gweithio gyda'r OECD i ddatblygu model Cymru gyfan o ysgolion fel sefydliadau dysgu (SLO) yn seiliedig ar adroddiad 2016 'What makes a school a learning organisation?' (Kools & Stoll, 2016). Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhai o brif ganfyddiadau papur gweithio addysg OECD-UNICEF (OECD, 2016). Mae'r model dilynol, sef 'Ysgolion yng Nghymru yn gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu' (Llywodraeth Cymru, 2017) yn amlinellu fframwaith gyda saith dimensiwn, sy'n amlygu'r modd y gall ysgolion ddatblygu fel sefydliad dysgu trwy:

1. ddatblygu a rhannu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar ddysgu pob myfyriwr
2. creu a chefnogi cyfleoedd dysgu pahaus i bob un o'r staff
3. hyrwyddo dysgu a chydweithio tîm ymhlith pob un o'r staff
4. sefydlu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio
5. ymgorffori systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth a dysgu
6. dysgu gyda, ac oddi wrth, yr amgylchedd allanol a'r system ddysgu fwy
7. modelu a thyfu arweinyddiaeth ddysgu

Mae'r model yn cynnwys holiadur lle gall staff ysgol hunanarfarnu yn erbyn y saith dimensiwn a amlinellir uchod. Yna, gellir defnyddio gwybodaeth o'r holiaduron i lywio cynllunio gwelliant. Yn aml, mae gan ysgolion sy'n datblygu fel sefydliadau dysgu y gallu i newid ac addasu'n rheolaidd yn ôl amgylcheddau ac amgylchiadau newydd a byddant yn gallu cefnogi gweithredu Cwricwlwm newydd i Gymru.

Beth sy'n gweithio'n dda?

Mae gan yr ysgolion ethos galluogi lle mae gan staff agwedd gadarnhaol at newid ac arloesedd

- 1 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio dull cadarnhaol o ailedrych ar gwricwlwm eu hysgol. Mae arweinwyr yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn siarad yn frwdfrydig am ddatblygu dull integredig o ddysgu sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd difyr i ddisgyblion gaffael a datblygu medrau a gwybodaeth. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus am groesawu'r 'pedwar diben' (Donaldson, 2015) ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r modd y gellir datblygu blaenoriaethau cenedlaethol, fel yr iaith Gymraeg, ac iechyd a lles, trwy'r pedwar diben. Mae llawer o'r arweinwyr hyn yn ymgysylltu'n dda â disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer eu cwricwlwm newydd.
- 2 Mewn mwyafrif o'r ysgolion hyn, mae penaethiaid wedi creu diwylliant lle mae athrawon yn datblygu'r hyder i newid eu hymagwedd bresennol at y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, mae ethos o rannu, arbrofi a chymorth yn dod i'r amlwg ymhlith staff sy'n arfarnu eu perfformiad eu hunain ac yn dysgu oddi wrth anawsterau neu heriau cychwynol. Mae arweinwyr yn annog athrawon i roi cynnig ar ffyrdd newydd o gyflwyno gwersi a phrofiadau dysgu heb ofni neu fethu. Mae lleiafrif o benaethiaid yn mynd ati i gynorthwyo athrawon i ymchwilio i'w harferion eu hunain, ac mae hyn yn hwyluso datblygu'r cwricwlwm.
- 3 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r meysydd allweddol sy'n cyfrannu at ethos a diwylliant llwyddiannus sy'n cefnogi dysgu proffesiynol yn cynnwys:
 - datblygu dealltwriaeth ar y cyd ac iaith ddysgu gytûn y mae pob un o'r staff yn ei defnyddio i lywio trafodaeth am gysyniadau a gweithgareddau allweddol yn yr ysgol
 - annog deialog agored ac uniongyrchol am addysgu ac arfer gyda ffocws cryf ar ei effaith ar ddysgwyr
 - meithrin perthnasoedd proffesiynol cydweithredol a chefnogol o fewn ysgolion, a rhyngddynt
 - ymgysylltu â thystiolaeth ymchwil ac ymgymryd ag ymchwil
 - cydnabod cyfrifoldeb ar y cyd am wella
 - mabwysiadu diwylliant drws agored dilys mewn ystafelloedd dosbarth sy'n cyfrannu tuag at greu ymddiriedaeth, tryloywder a gonestrwydd ymhlith staff
- 4 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid ac uwch arweinwyr yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn deall bod angen datblygu arweinyddiaeth a gweledigaeth gref er mwyn i ysgolion allu mabwysiadu strategaeth tymor hir i gefnogi datblygu a gwella'r cwricwlwm. Mae bron pob un o'r penaethiaid yn gosod disgwyliadau uchel ac yn hyrwyddo addysgu effeithiol a heriol sy'n bodloni anghenion pob un o'r dysgwyr. Maent yn buddsoddi mewn staff cymorth hynod hyfforddedig ac yn sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus

ym mhob cyfnod gyrfa. Mae cynllunio datblygiad, recriwtio ac olyniant staff wedi'i seilio ar brosesau arfarnu trylwyr.

Mae'r ysgolion yn canolbwyntio'n graff ar gynllunio profiadau dysgu sy'n defnyddio chwilfrydedd a dawn greadigol disgyblion ac yn cefnogi mentro a dysgu annibynnol y disgyblion

- 5 Mae penaethiaid mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn annog eu staff i gynllunio gweithgareddau sy'n defnyddio chwilfrydedd a dawn greadigol disgyblion, ac sy'n ddiddorol, yn ddifyr, yn berthnasol ac yn heriol ar gyfer disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn deall bod addysgu rhagorol ac addysgeg effeithiol yn gwella a chynnal cyflawniad disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn gweld datblygu'r cwricwlwm fel cyfrwng i gefnogi gwella addysgu. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer athrawon sydd â chryfder neu ddiddordeb mewn pwnc penodol i gydweithio â chydweithwyr a'u cynorthwyo i wella eu harfer.
- 6 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cyflwyno gweithgareddau trawsgwricwlaidd gwerth chweil sy'n galluogi athrawon i ystyried sut maent yn darparu ar gyfer datblygu'r pedwar diben trwy weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda. Mae arweinwyr bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi mabwysiadu diffiniad a dealltwriaeth glir o beth sy'n gwneud cwricwlwm cryf ac arloesol, er bod disgwyliadau o uwch arweinwyr yn amrywio rhwng ysgolion.
- 7 Mae athrawon yn yr ysgolion hyn yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fentro'n bwyllog yn eu dysgu, trwy archwilio eu meddyliau a mynd i'r afael â gweithgareddau heriol heb ofni methu. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u cynllunio'n dda ac yn cynnwys cydbwysedd addas o gyfleoedd dysgu wedi'u harwain gan ddisgyblion a rhai wedi'u harwain gan oedolion gyda chysylltiadau ar draws pynciau a medrau. Maent yn deall pwysigrwydd cynhwysiant, yn gwerthfawrogi pob un o'r disgyblion, beth bynnag fo'u gallu, ac yn eu cynorthwyo ar hyd llwybrau dysgu unigol.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ffocws clir ar gyflwyno addysgu o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â chwricwlwm gwell

- 8 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd datblygu ymwybyddiaeth ar y cyd o sut beth yw addysgu effeithiol. Maent yn sicrhau bod athrawon yn myfyrio ar eu harfer broffesiynol ac yn arfarnu ei effaith ar gynnydd disgyblion. Mae llawer o arweinwyr ysgol yn cynorthwyo athrawon i arfarnu'r ffordd y maent yn addysgu. Maent yn annog athrawon i ystyried ffyrdd newydd o gymell disgyblion i archwilio a darganfod drostynt eu hunain trwy osod eu targedau eu hunain. "Yn yr ysgolion gorau, mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dulliau a disgwyliadau ysgol gyfan cytûn o ran arfer ystafell ddosbarth." (Estyn, 2018, tud.18)
- 9 Mae arweinwyr yn pwysleisio'r angen i athrawon ddatblygu'r hyder a'r ddealltwriaeth i ddewis y dull addysgu mwyaf priodol i herio, ysbrydoli a bodloni anghenion pob un o'r disgyblion. Mae uwch dimau rheoli mewn lleiafrif o ysgolion wedi creu cyfleoedd i athrawon weithio mewn timau, yn aml mewn 'triadau' sy'n cynnwys unigolion â gwahanol profiadau ac arbenigedd addysgu. Mae pob aelod o'r grŵp yn cymryd eu tro i arsylwi rhywun arall yn addysgu cyn cymryd rhan mewn trafodaeth onest ac agored sy'n canolbwyntio ar addysgeg. Mae'r dull defnyddiol a chadarnhaol hwn o ddatblygu medrau athrawon yn helpu gwella perfformiad. Mae athrawon yn

canolbwyntio ar egwyddorion cyffredinol, fel strategaethau rheoli ymddygiad, a'r graddau y mae gan ddisgyblion rôl yr un mor weithredol yn y broses ddysgu. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu diwylliant o fyfyrion beirniadol sy'n llywio anghenion hyfforddi unigolion. Maent yn datblygu dealltwriaeth o addysgeg trwy "brosesau hunanarfarnu sy'n canolbwyntio'n rheolaidd ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu". (Estyn, 2018, tud.18)

- 10 Mae llawer o arweinwyr yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio'r model ysgol fel sefydliad dysgu (OECD, 2016) i sicrhau bod eu hathrawon yn myfyrion ar effeithiolrwydd yr addysgu, a'i fireinio. Maent yn nodi bod addysgu ysbrydoledig yn gwneud i ddisgyblion ddangos diddordeb a chymhelliant ac yn rhoi cyfeiriad i'w dysgu eu hunain, ac mae ganddynt fwy o reolaeth dros eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn datblygu 'dysgwyr uchelgeisiol, medrus' (Donaldson, 2015) trwy annog athrawon i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion reoli eu dysgu eu hunain. Maent yn gwneud hyn trwy alluogi iddynt ymateb i'r heriau a'r anawsterau sy'n codi eu hunain ac ymwrthod â'r demtasiwn i ymyrryd a chyfarwyddo'r dysgu. Mae disgyblion yn gweithio trwy anawsterau ac nid ydynt yn dibynnu ar rywun arall i fod yno i ddatrys problemau drostynt.
- 11 Mae uwch arweinwyr yn aml yn defnyddio ystod o gwestiynau syml ond effeithiol i annog athrawon i fyfyrion ar y cwricwlwm a'u haddysgu. Mae ffocws y cwestiynau ar greu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu diddordebau eu hunain ac ymgymryd â thasgau heriol trwy ddefnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys y rheiny sy'n hyrwyddo datrys problemau, meddwl creadigol a beirniadol. Maent yn gofyn cwestiynau fel y canlynol iddyn nhw eu hunain:
- Sut ydw i'n ennyn diddordeb fy nisgyblion i sicrhau eu bod yn gwybod diben y gweithgaredd?
 - Sut ydw i'n ysbrydoli disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog a chreadigol?
 - Sut ydw i'n datblygu disgyblion fel dysgwyr annibynnol sy'n cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain ac yn ymateb yn hyderus i anawsterau neu heriau?
 - Sut ydw i'n gwybod pa fedrau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol sydd gan fy nisgyblion eisoes?
 - Sut ydw i'n sicrhau bod gennyf y cydbwysedd cywir rhwng cymorth a her yn y tasgau rydw i'n eu gosod ar gyfer disgyblion?
 - Sut ydw i'n gwybod pa fedrau craidd y mae fy nisgyblion yn eu datblygu, neu y dylent fod yn eu datblygu?
 - Sut ydw i'n darparu cyfleoedd i'm disgyblion gymhwyso eu medrau ar draws pob maes dysgu?
 - Sut ydw i'n darparu cyfleoedd i'm disgyblion gydweithio ar eu heriau eu hunain fel eu bod yn mentro ac yn mynd y tu hwnt i'r dull confensiynol?
- 12 Mae ychydig o ysgolion eisoes yn sicrhau bod athrawon yn cynllunio gweithgareddau rheolaidd sy'n mynd i'r afael ag o leiaf un o'r pedwar diben trwy addysgeg effeithiol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y cynllunio manwl hwn ar allu disgyblion i gaffael a datblygu medrau allweddol.

- 13 Mae tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o ansawdd eu haddysgu. Mae bron pob un ohonynt wedi caffael dealltwriaeth dda o'u cryfderau a'r meysydd i'w datblygu a sut gallant fod yn athrawon ysbrydoledig. Mae athrawon yn gwneud defnydd cynhwysfawr o arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau gyda disgyblion, a theithiau dysgu rheolaidd i gael gwaelodlin ar gyfer asesu ansawdd yr addysgu. Wedyn, maent yn rhoi adborth gwerthfawr i athrawon sydd â ffocws clir ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws pob maes dysgu.
- 14 Mae athrawon yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn aml yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu ac yn cydnabod nad oes un dull penodol sy'n gweddu i bob sefyllfa a grwpiau o ddisgyblion. Wrth gynllunio gweithgareddau, maent yn ystyried gwahanol ddulliau a allai helpu disgyblion unigol i ddysgu'n fwy effeithiol. Mae bron pob un ohonynt yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu dysgwyr annibynnol sy'n cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain. Mae llawer o wersi'n cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymchwilio, arsylwi, cofnodi, arbrofi, datblygu syniadau, dychmygu a chreu. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd hyn yn aml yn weithgareddau ar eu pen eu hunain ac nid ydynt yn cyfrannu at gwricwlwm integredig sydd wedi'i wreiddio mewn addysgeg effeithiol.

Mae ysgolion yn darparu cyfleoedd i athrawon wella eu medrau trwy addysgeg effeithiol

- 15 Mae gan lawer o ysgolion ddiwylliant cryf o ddysgu proffesiynol ac maent yn rhoi pwyslais sylweddol ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. I wneud hyn, datblygant ethos cynhwysol a diwylliant cydweithredol lle caiff dysgu proffesiynol ei werthfawrogi gan bob un o'r staff ac mae ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol ar gael i gefnogi gwelliant.
- 16 Pan fydd angen, mae arweinwyr yn mynd i'r afael ag agweddau ar addysgu y mae angen eu gwella trwy hyfforddiant a dysgu proffesiynol. Mae'r dull hwn yn galluogi athrawon i ddysgu am wahanol strategaethau, ac arbrofi â nhw, gyda gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn ôl gallu, oedran a datblygiad. Mae cyfleoedd ymarferol o'r fath i ddatblygu addysgeg effeithiol yn yr ysgolion hyn yn cynnwys:
- arsylwi ac arfarnu gwersi gydag athrawon eraill mewn 'triadau' – naill ai gyda chydweithwyr neu athrawon o ysgolion partner
 - arsylwi gwersi sy'n cael eu ffilmio fel gweithgaredd ysgol gyfan
 - ymweld ag ysgolion eraill mewn ystod o sectorau i arsylwi arfer dda
 - addysgu dosbarthiadau eraill, naill ai yn eu hysgol eu hunain neu mewn ysgolion partner

Mae'r ysgolion yn canolbwyntio ar newid ac arloesedd fel ysgogwyr i wella profiadau addysgol disgyblion

- 17 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn deall bod angen gwella profiadau addysgol ar gyfer pob disgybl. Maent yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu arferion addysgu a gweithdrefnau asesu effeithiol fel yr egwyddorion sylfaenol sydd eu hangen i sefydlu cwricwlwm cryf ac arloesol. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn darparu cyfleoedd rheolaidd i staff ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r

egwyddorion hyn trwy raglen o gyfarfodydd a gweithdai wedi'u strwythuro'n ofalus. Mae llawer ohonynt yn sicrhau bod staff yn hyderus i roi cynnig ar ddulliau newydd sy'n ysbrydoli disgyblion i ddysgu a llwyddo. Credir yn gryf y dylid arfarnu pob menter neu ddatblygiad i asesu ei effaith ar y dysgwr ac ar welliannau ym mhrofiadau, dysgu a deilliannau disgyblion. Mae'r agwedd 'gallu gwneud' hon a diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol yn golygu bod yr ysgolion hyn mewn sefyllfa dda i greu cwricwlwm sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr.

- 18 Mae gan lawer o athrawon yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw amcanion rheoli perfformiad sy'n cefnogi datblygu'r cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn sicrhau bod athrawon yn canolbwyntio'n dda ar ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau annibyniaeth a'u gallu i wneud dewisiadau a meddwl yn greadigol. Mae arweinwyr yn monitro'r amcanion blynyddol hyn yn ofalus i sicrhau bod athrawon yn arfarnu cyflawniad a chynnydd disgyblion yn gywir ac yn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r amcanion hyn yn cefnogi datblygu cwricwlwm hyblyg ac addysgeg effeithiol.

Rhoddir cydnabyddiaeth gynyddol i werth ac effaith ymchwil addysgol

- 19 Ers cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson 2015), bu newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn defnyddio ac ymgysylltu ag ymchwil addysgol i lywio datblygu'r cwricwlwm. Trwy gonsortia rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA), mae mecanweithiau defnyddiol ac effeithiol i ysgolion elwa ar ymchwil addysgol gyfoes a chymryd rhan mewn fforymau i drafod y cwricwlwm ac asesu.
- 20 Mae athrawon yn fwy hyderus, detholgar a chreadigol pan fydd eu harfer wedi'i gwreiddio mewn deall beth sy'n gweithio'n dda. Mae Adroddiad Blynyddol Estyn (2016-2017) yn nodi, 'mewn ysgolion sy'n defnyddio tystiolaeth ymchwil bresennol yn rheolaidd, mae athrawon yn arfarnu damcaniaethau am addysgu a dysgu, ac yn eu cymhwyso i'w harfer eu hunain' (Estyn, 2018, tud. 20). Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn aml yn cyflwyno gweithgareddau diddorol a gwerth chweil yn eu cwricwlwm gan eu bod wedi darllen amdanynt yn eu hymchwil neu drwy gymryd rhan mewn seminarau neu wedi rhannu arfer ag athrawon eraill.
- 21 Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ysgolion gymryd rhan mewn ymchwil yn parhau i fod yn rhy amrywiol, ac mewn lleiafrif o achosion, mae arweinwyr ac athrawon yn teimlo eu bod wedi colli cysylltiad â datblygiadau ymchwil allweddol.

Mae gan lawer o'r ysgolion arferion hunanarfarnu cryf ac yn gwybod pa agweddau ar addysgu a dysgu y mae angen eu newid

- 22 Mae arweinwyr yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cydnabod yr angen am hunanarfarnu sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu. Mae llawer o ysgolion yn arfarnu i ba raddau y mae eu cwricwlwm presennol yn cynnwys cyfleoedd gwerth chweil i athrawon ymgorffori'r pedwar diben. Mae arweinwyr yn ystyried y modd y mae gwahanol arddulliau addysgegol yn dal ac ennyn diddordebau disgyblion trwy amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn datblygu cwricwlwm arloesol sy'n adeiladu ar ddarpariaeth ac addysgeg effeithiol bresennol. Maent yn pwysleisio y dylid darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau a'u hanian trwy brofiadau ffurfiol ac anffurfiol.

- 23 Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o arweinwyr ysgol yn arfarnu eu darpariaeth bresennol yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid ydynt mewn sefyllfa gref i nodi pa agweddau ar addysgu a dysgu y mae angen eu diwygio a'u gwella.

Mae llawer o ysgolion wedi mynd ati i ymgysylltu â staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr ynglŷn â sut yr hoffent i'r cwricwlwm yn eu hysgol newid

- 24 Yn yr ysgolion gwell, mae arweinwyr yn ymgysylltu â disgyblion, staff a rhieni i gael trosolwg cytbwys o'u cwricwlwm presennol. Maent hefyd wedi casglu safbwyntiau a barn rhanddeiliaid ynglŷn â beth sy'n gwneud cwricwlwm arloesol yn eu barn nhw trwy ofyn sut hoffent i'r cwricwlwm gael ei ddatblygu ymhellach. Mae'r cwestiynau canlynol yn nodweddiadol o'r rheiny a ddefnyddir i ysgogi trafodaeth ymhlith staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr:

- Beth fydd yn cyffroi ein disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb yn eu dysgu?
- Pa brofiadau ddylem ni eu darparu i'n disgyblion fel eu bod yn datblygu i fod yn ddysgwyr creadigol, mentrus a dychmygus nad oes ofn arnynt fentro'n bwyllog?
- Ble ddylem ni addysgu ein disgyblion, a ble maent yn dysgu orau?
- Sut gallwn ni wybod os yw ein disgyblion yn gwneud cynnydd a bod eu gwaith yn gwella?
- Pwy ddylem ni ei wahodd i'r ysgol i weithio gyda'n disgyblion? Pam? A ydym ni'n glir ynglŷn â'r manteision?
- I ble ddylem ni fynd â'n disgyblion i ddarparu profiadau go iawn a fydd yn galluogi iddynt ddod yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, yn awr ac yn y gorffennol?
- Sut gallwn ni ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu, gofyn cwestiynau a datrys problemau yn Gymraeg a Saesneg?
- Sut dylem ni ddatblygu dealltwiraeth ein disgyblion o les meddyliol ac emosiynol?

Beth yw'r rhwystrau rhag newid?

- 25 Mae llawer o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw yn dangos tystiolaeth o waith paratoadol defnyddiol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Mae lleiafrif ohonynt wedi ad-drefnu staff yn dimau meysydd dysgu a phrofiad, sy'n gweithio gyda'i gilydd ar ddatblygu meysydd pwnc neu amlinellu'r modd y gellir addysgu themâu presennol gan ddefnyddio dull meysydd dysgu a phrofiad. Mae llawer o ysgolion wedi dechrau datblygu eu darpariaeth ar gyfer lles ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r ysgolion hyn mewn sefyllfa eto i arfarnu'r graddau y mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith ar safonau.

Cynllunio annigonol o ran y cwricwlwm

- 26 Mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae diffyg cydlynid yn y cwricwlwm, ac mae wedi mynd yn orlawn, yn ddigyswllt neu'n fratiog. Er bod ysgolion yn symud tuag at mwy o gyd-destunau 'go iawn' a chynllunio athrawon yn cysylltu â gwahanol brofiadau dysgu disgyblion yn well, mae gormod o bwyslais o hyd ar brosiectau unigol neu elfennau sy'n cael eu hychwanegu at y cwricwlwm yn hytrach na dull cwbl integredig o gynllunio'r cwricwlwm.
- 27 Mae llawer o ysgolion cynradd yn addysgu mathemateg ac iaith yn y bore a gwaith thematig neu waith testun yn y prynhawn. Yn aml, mae'r trefniant hwn yn arwain at gynllunio digyswllt lle nad yw gwaith disgyblion yn y bore yn ymwneud yn ddigon agos â'r hyn y maent yn ei wneud yn y prynhawn.
- 28 Mae llawer o athrawon wedi ailenwi themâu neu destunau sy'n perthyn i'r meysydd dysgu a phrofiad newydd. Er enghraifft, mae ychydig o ysgolion cynradd yn cadw testunau sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol presennol, fel Arch Arwyr, y Tuduriaid, a Tân Mawr Llundain. Fodd bynnag, ychydig o ysgolion yn unig sy'n dewis themâu sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru.

Datblygu medrau yn anghyson

- 29 Nid yw lleiafrif o ysgolion yn monitro pa mor dda y mae athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm.
- 30 Mae gan lawer o ysgolion drefniadau i roi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ar waith (Llywodraeth Cymru, 2013) ac maent yn cynllunio cyfleoedd i ddatblygu genres ysgrifennu trwy waith trawsgwricwlaidd. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn aml yn ailadrodd yr hyn a addysgwyd mewn gwersi iaith ac nid yw bob amser yn datblygu medrau disgyblion mewn cyd-destun ystyrlon. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd a gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu medrau datrys problemau, creadigol a meddwl yn feirniadol.

- 31 Mae mwyafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn yr arolwg yn dechrau ystyried sut maent yn cynnwys elfennau o'r fframwaith cymhwysedd digidol trwy waith thematig priodol.

Aros am arweiniad

- 32 Mae ychydig o ysgolion wedi cymryd camau amhendant yn unig o ran datblygu'r cwricwlwm, gan eu bod yn aros am arweiniad a chyfarwyddyd pendant gan Lywodraeth Cymru cyn ymrwmo i newid cadarn. Mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae angen cymorth ychwanegol ar arweinwyr ac athrawon ar sut i arfarnu eu polisïau presennol ar dulliau addysgu a chynnwys y cwricwlwm. Mae cynnydd yr ysgolion hyn wedi bod yn rhy araf neu, mewn rhai achosion, mae newidiadau wedi symud yn rhy gyflym.

Ysgolion arloesi a chydweithio

- 33 Er hydref 2015, mae'r rhan fwyaf o ysgolion arloesi wedi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol i ddatblygu Cwricwlwm newydd i Gymru. Cefnogir y rhaglen ysgolion arloesi gan bron bob arweinydd ac athro. Mae'n annog ysgolion i weithio gyda'i gilydd ac yn gwneud defnydd da o wybodaeth broffesiynol ac arbenigedd unigolion i gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd.
- 34 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion arloesi yr ymwelwyd â nhw yn gweithio'n agos â'u hysgolion partner, ond maent yn ansicr ynglŷn â faint y disgwylir iddynt gydweithio â'i gilydd. Ychydig iawn o ysgolion sy'n cydweithio ag ysgolion eraill i arfarnu priodoldeb arferion addysgu presennol a ph'un a ydynt mewn sefyllfa dda i gyflawni pedwar diben Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015).
- 35 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion arloesi wedi canolbwyntio ar gyflwyno agweddau ar y meysydd dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, nid ydynt wedi rhoi ystyriaeth ddigon da i'r ffordd y mae athrawon yn cyflwyno eu gwersi nac effaith dulliau addysgu ar ddysgu a chyflawniad disgyblion.

Peidio â chynnwys rhieni a'r gymuned

- 36 Ymgynghorodd llawer o ysgolion â rhieni a'r gymuned yn ystod paratodau cychwynnol ar gyfer newid y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae ymgynghori'n digwydd yn llai aml pan fydd ysgolion yn symud ymlaen i gynllunio'r cwricwlwm yn fanwl, ac yn aml, ni chaiff rhieni wybod am ddatblygiadau. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r cwricwlwm wedi datblygu'n rhy gyflym, ac ni chaiff newidiadau i'r cwricwlwm bob amser eu cyfleu i rieni a'r gymuned ehangach.

Pedwar cam datblygu'r cwricwlwm

- 37 Datblygwyd y model isod o hunanarfarnu datblygu'r cwricwlwm trwy ymgynghori ag ysgolion, Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd hefyd yn ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion allweddol o'r ddau adroddiad OECD a amlinellir uchod (OECD, 2014 a OECD, 2017) yn ogystal â chraffu ar adroddiadau arolygiadau Estyn.

Cam 1: Arfarnu'r cwricwlwm presennol o fewn trefniadau hunanarfarnu ehangach

- 38 Wrth **arfarnu'r cwricwlwm presennol**, gallai ysgolion ystyried y cwestiynau allweddol canlynol:
- A ydych chi wedi datblygu trefniadau hunanarfarnu effeithiol i nodi beth rydych yn ei wneud yn dda, a beth mae angen ei newid?
 - Pa dystiolaeth y mae angen i chi ei hystyried a phwy mae angen i chi ei gynnwys, i arfarnu addysgu a chynllunio'r cwricwlwm?
 - I ba raddau ydych chi'n hyrwyddo'r pedwar diben yn eich trefniadau cwricwlwm presennol?
 - Pa mor dda ydych chi'n darparu ystod eang o brofiadau cyfoethogi ar gyfer disgyblion ac yn cydnabod eu cyflawniadau?
 - Sut ydych chi'n sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n dda ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu wrth iddynt fynd trwy'r ysgol, neu rhwng ysgolion?
 - A yw trefniadau asesu yn briodol, a pha mor dda y maent yn helpu disgyblion i wella eu gwaith?
 - Pa mor dda ydych chi'n arfarnu effeithiolrwydd eich partneriaethau strategol a'ch ymglymiad â'r gymuned yn y cwricwlwm?
 - I ba raddau ydych chi'n barod i groesawu newid ac ymgysylltu ag ysgolion eraill a phartneriaid i ddatblygu eich cwricwlwm?
 - Pa mor dda ydych chi'n defnyddio gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth staff wrth gynllunio ar gyfer gwella?

Cam 2: Cynllunio a pharatoi ar gyfer newid

- 39 Wrth **gynllunio a pharatoi ar gyfer newid**, gallai ysgolion ystyried y cwestiynau allweddol canlynol:

Arweinyddiaeth

- A oes gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer beth i'w newid a pham?
- A yw arweinwyr wedi sefydlu'r diwylliant a'r amodau cywir ar gyfer newid? Sut ydych chi'n gwybod?
- A yw arweinwyr wedi datblygu diwylliant dysgu proffesiynol cryf sy'n canolbwyntio ar ddatblygu addysgeg effeithiol?
- A oes systemau effeithiol i arbrofi â syniadau newydd cyn eu rhoi ar waith?

- Pa mor dda y mae arweinwyr yn cynorthwyo ac annog staff i roi cynnig ar syniadau newydd?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn cynnal a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff o ddatblygiadau'r cwricwlwm newydd?

Ymchwilio

- Pa mor dda y mae staff yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i lywio datblygu'r cwricwlwm?
- Pa mor dda ydych chi'n sicrhau y bydd y newidiadau rydych chi'n eu cynnig yn darparu a chynnal cyd-destunau cyfoethog ar gyfer datblygu'r pedwar diben a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015)?
- A ydych chi'n neilltuo digon o amser i godi ymwybyddiaeth am newid y cwricwlwm?
- A ydych chi'n rhoi digon o gyfleoedd i staff drafod canfyddiadau ymchwil i baratoi ar gyfer newid?

Darparu adnoddau

- Pa mor dda ydych chi'n sicrhau y bydd gennych yr adnoddau angenrheidiol yn eu lle i gefnogi unrhyw newid arfaethedig i'r cwricwlwm?
- Pa mor dda ydych chi'n defnyddio dawn greadigol ac arbenigedd presennol eich staff i ddatblygu eu dychymyg o ran y cwricwlwm?
- Beth yw'r goblygiadau ar gyfer staffio ac adnoddau?

Ymglymiad rhanddeiliaid

- I ba raddau y mae gennych ddiwylliant sy'n cefnogi gweithio gydag ysgolion eraill a phartneriaid?
- Pa mor dda ydych chi'n ymgysylltu â staff, disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol i baratoi ar gyfer newid y cwricwlwm?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod staff a rhanddeiliaid eraill (er enghraifft rhieni a llywodraethwyr) yn gwybod ble i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y cwricwlwm fel eu bod i gyd yn cymryd rhan mewn paratoi ar gyfer newid?
- A yw partneriaethau yn seiliedig ar berthnasoedd a chyfleoedd cyfartal ar gyfer dysgu ar y ddwy ochr?

Dysgu proffesiynol

- I ba raddau ydych chi wedi cael cymorth gan bartneriaid neu ysgolion arloesi i newid?
- Pa mor dda y mae staff yn cydweithio, yn dysgu ac yn cyfnewid gwybodaeth gyda chyfoedion mewn ysgolion eraill trwy rwydweithiau a/neu gydweithio o ysgol i ysgol?
- I ba raddau y mae staff yn ennill medrau a dealltwriaeth i ddatblygu a rhoi cwricwlwm newydd ar waith?
- Pa mor dda ydych chi'n blaenoriaethu dysgu proffesiynol ac yn neilltuo amser i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau priodol?

- Pa mor dda ydych chi'n defnyddio medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth pob un o'r staff i gynllunio ar gyfer gwelliant a newid?
- A ydych chi wedi nodi unrhyw rwystrau posibl rhag newid? Er enghraifft:
 - anghenion datblygu staff
 - amser annigonol neu arweinyddiaeth wan
 - gofynion anghyson mentrau addysgol eraill
 - y cyfle i athrawon newydd neu amhrofiadol ymdopi â gofynion cwricwlwm newydd
 - amharodrwydd athrawon sy'n gyfforddus â dulliau cyfarwydd o newid
- A oes gennych weithdrefnau effeithiol ar waith i arfarnu amgylchedd allanol eich ysgol i ymateb yn gyflym i heriau a chyfleoedd?

Cam 3: Cyflawni newid

40 Wrth **gyflawni newid**, gallai ysgolion ystyried y cwestiynau allweddol canlynol:

- Pa mor dda ydych chi'n monitro agweddau penodol ar y cwricwlwm yr ydych chi wedi nodi bod angen eu newid neu'u mireinio?
- Pa ddulliau neu newidiadau i'r cwricwlwm sydd wedi cael eu mabwysiadu, a pha mor effeithiol ydyn nhw wedi bod hyd yn hyn?
- Pa mor dda ydych chi'n cefnogi a galluogi newidiadau i'r cwricwlwm?
- Pa mor dda ydych chi'n monitro effaith dulliau neu strategaethau addysgu newydd yr ydych chi wedi eu mabwysiadu?
- Pa mor dda ydych chi'n gwybod pa mor effeithiol ydyn nhw?
- Pa mor dda ydych chi'n cyflwyno'r newidiadau hyn?
 - A ydych chi'n mabwysiadu dull ysgol gyfan?
 - A ydych chi'n canolbwyntio ar ddsbarthiadau neu gyfnodau allweddol unigol?
 - A ydych chi'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar y cwricwlwm, y pynciau neu'r meysydd dysgu?
- Pa mor dda ydych chi'n adnabod y prif rwystrau rhag newid a sut ydych chi'n mynd i'r afael â nhw a'u goresgyn?
- Pa mor dda y mae staff a phartneriaid (er enghraifft disgyblion, rhieni a llywodraethwyr) yn cefnogi cyflawni newid?

Cam 4: Arfarnu newid

41 Wrth **arfarnu newid**, gallai ysgolion ystyried y cwestiynau allweddol canlynol:

- Pa mor dda ydych chi'n arfarnu newid i ystyried beth sy'n gweithio'n dda, ac i'r gwrthwyneb, a pham?
- Pa mor effeithiol ydych chi'n monitro, adolygu ac addasu newid yng Ngham 3? A ydych chi'n cynnwys yr holl randdeiliaid?
- Pa mor dda ydych chi'n arfarnu effaith newid er mwyn nodi'r hyn y mae angen iddo ddigwydd nesaf a chynllunio ar gyfer gwelliant pellach?
- Pa mor dda ydych chi'n gwybod pa agweddau y mae angen eu cryfhau neu y mae angen arbrofi â nhw yn fwy cyn eu rhoi ar waith yn llawn?

- Pa mor effeithiol yw eich trefniadau ar gyfer adborth systematig a pha mor dda ydych chi'n defnyddio'ch arfarniad o bob agwedd ar ddatblygu'r cwricwlwm o ystod o safbwyntiau, i gynllunio gweithgareddau a newid yn y dyfodol?
- Pa mor dda ydych chi'n ystyried effaith addysgeg wahanol i godi safonau addysgu?

Mae crynodeb o'r [cwestiynau hyn ar gael](#).

Astudiaethau achos

- 42 Mae'r astudiaethau achos y gellir mynd atynt yma yn cynnwys ysgolion ledled Cymru sy'n amrywio o ran meintiau, lefelau amddifadedd, a chyfrwng iaith. Ar gyfer pob astudiaeth achos, fe wnaethom ystyried:
- y dull a fabwysiadwyd gan yr ysgol i arfarnu eu cwricwlwm presennol
 - y llwyddiannau
 - yr heriau
 - sut mae'r ysgolion wedi goresgyn yr heriau hyn, neu'n mynd i'r afael â nhw
- 43 Mae'r astudiaethau achos yn adlewyrchu'r ffaith fod ysgolion ledled Cymru ar adegau amrywiol ar 'gontinwmm' newid cwricwlwm o ganlyniad i'w gwahanol fannau cychwyn, camau datblygu, ac amgylchiadau penodol pob ysgol.
- 44 Mae'r astudiaethau achos yn dangos sut mae ysgolion sydd ar wahanol gamau o ran datblygu'r cwricwlwm yn gwneud cynnydd. Maent wedi eu trefnu o amgylch pedwar cam datblygu'r cwricwlwm a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad. Mae'r pedwar cam yn cynnig strwythur i ysgolion sy'n gallu cynorthwyo meddwl cwricwlaidd.

Ysgol	Cam 1: Hunanarfarnu	Cam 2: Cynllunio a pharatoi	Cam 3: Cyflawni newid	Cam 4: Arfarnu newid
Ysgol Gynradd Cae Top	✓	✓		
Ysgol Gynradd Gymunedol Cornist Park	✓	✓	✓	✓
Ysgol Gynradd Monnow	✓	✓	✓	
Ysgol Gynradd Gymunedol Gwndy	✓	✓	✓	
Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las	✓	✓		
Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn	✓	✓	✓	✓
Ysgol Gynradd Penllergaer	✓	✓		
Ysgol Y Faenol	✓	✓		

Ysgol Gynradd Cwmfelinfach	✓	✓		
Ysgol Gynradd Sirol Bryn Deva	✓	✓	✓	
Ysgol Y Dderi	✓	✓	✓	
Ysgol Gynradd Kitchener	✓	✓		
Ysgol Gynradd Glan Usk	✓	✓		
Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Maesyfed	✓	✓		
Ysgol Gymraeg Aberystwyth	✓	✓	✓	✓
Ysgol Heulfan	✓	✓	✓	
Ysgol Cynwyd Sant	✓	✓	✓	
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	✓	✓	✓	
Clwstwr Ysgolion Cynradd Y Barri	✓	✓		
Ysgol Gynradd yr Hafod	✓	✓	✓	

Sail y dystiolaeth

Mae'r arolwg thematig yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â 30 o ysgolion. Mae'n canolbwyntio ar ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o bob cwr o Gymru sydd ar wahanol gamau o ran datblygu'r cwricwlwm. Sicrhaodd yr ymweliadau gynrychiolaeth gymesur, ar y cyfan, o ysgolion cynradd ym mhob rhanbarth, ac roedd yn cynnwys ysgolion arloesi.

Cynhaliwyd yr ymweliadau ag ysgolion rhwng Ionawr a Gorffennaf 2017. Yn ystod yr ymweliadau, bu arolygwyr yn cyfweld ag uwch arweinwyr, arweinwyr canol, athrawon dosbarth, staff cymorth dysgu a disgyblion i ddal pob agwedd ar daith yr ysgol i ddatblygu'r cwricwlwm. Defnyddiwyd tystiolaeth ychwanegol o ganlyniadau arolygiadau ysgolion rhwng Medi 2015 a Gorffennaf 2017.

Ysgolion sydd wedi eu cynnwys yn yr arolwg:

- Ysgol Gynradd Cwmfelinfach
- Ysgol Gynradd Cae Top
- Ysgol Gynradd Sirol Bryn Deva
- Ysgol Gymraeg Aberystwyth
- Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon
- Ysgol Gynradd Kitchener
- Ysgol Gymraeg Ifor Hael
- Ysgol Gynradd Severn
- Ysgol Y Faenol
- Ysgol Gynradd Sant Joseff
- Ysgol Cynwyd Sant
- Ysgol Gynradd Gymunedol Cornist Park
- Ysgol Gynradd Glan Usk
- Ysgol Gynradd Monnow
- Ysgol Gynradd Gymunedol Gwndy
- Ysgol Melyd
- Ysgol Y Dderi
- Ysgol Emmanuel
- Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn
- Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa
- Clwstwr Ysgolion Cynradd Y Barri
- Ysgol Bryn Hedydd
- Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las
- Ysgol Ffridd y Llyn
- Ysgol Heulfan
- Ysgol Gynradd Gymunedol Dyffryn Maesyfed
- Ysgol Gynradd Penllergaer
- Ysgol Gynradd Peniel
- Ysgol Gynradd Llanisien Fach
- Ysgol Gynradd yr Hafod

Geirfa

addysgeg	Dull ac arfer addysgu
consortia rhanbarthol	Y ddarpariaeth a sefydlwyd gan grŵp o awdurdodau lleol i gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion fel yr amlinellir ym Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru
Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)	Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn rheoleiddio Athrawon Ysgol ac Addysg Bellach yng Nghymru er budd dysgwyr a'r cyhoedd.
fframwaith cymhwysedd digidol	Mae cymhwysedd digidol yn un o dri chyfrifoldeb trawgwricwlaidd, ynghyd â llythrennedd a rhifedd. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau digidol y gellir eu cymhwyso i ystod eang o bynciau a senarios.
Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh)	Fframwaith medrau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru yw hwn. Daeth yn statudol mewn ysgolion o fis Medi 2013. Mae wedi'i gynllunio i helpu athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd ym mhob maes pwnc (Llywodraeth Cymru, 2013).
meysydd dysgu a phrofiad	Mae Dyfodol Llwyddiannus yn cyfeirio at ddatblygu chwe maes dysgu a phrofiad fel ffordd o drefnu pynciau'r cwricwlwm, sef y celfyddydau, iechyd a lles, y dyniaethau, ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, mathemateg a rhifedd, gwyddoniaeth a thechnoleg.
OECD	Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn sefydliad economaidd rhynglywodraethol sydd â 35 o aelod wledydd, a sefydlwyd ym 1961 i ysgogi cynnydd economaidd a masnach ryngwladol.
taith ddysgu	Arsylwi addysgu, darpariaeth neu agwedd arall ar fywyd ysgol mewn ffordd ffurfiol neu anffurfiol, sy'n digwydd mewn ystafell ddosbarth neu amgylchedd dysgu arall
y cyfnod sylfaen	Dull o ddysgu ar gyfer plant rhwng tair a saith oed yng Nghymru. Hwn yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn yng Nghymru rhwng yr oedrannau hyn mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir.
ysgol arloesi	Ysgolion sydd wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i ddatblygu ac arbrofi â chwricwlwm newydd i Gymru.

ysgol bartner	Ysgolion yn gweithio ochr yn ochr ag ysgolion arloesi i ymateb i argymhellion Dyfodol Llwyddiannus
ysgolion fel sefydliadau dysgu (SLO)	Mewn sefydliad dysgu, mae credoau, gwerthoedd ac arferion cyflogeion yn cefnogi dysgu parhaus.

Niferoedd – meintiau a chyfrannau

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Cyfeiriadau

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://llyw.cymru/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf> [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

Estyn (2018) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-2017*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Estyn%20Annual%20Report%20Welsh%20Accessible.pdf> [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

Kools, M. a Stoll, L. (2016) *What makes a School a Learning Organisation?* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.oecd-ilibrary.org/docserver/5jlwm62b3bvh-en.pdf?expires=1524067531&id=id&accname=guest&checksum=7C6DEE9BDEA8C6EBBD1C96E2DEB1DE5F> [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective*. Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://www.oecd.org/edu/Improving-schools-in-Wales.pdf> [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

OECD (2016) *What makes a school a learning organisation? A guide for policy makers, schools leaders and teachers*. Paris: OECD [Ar-lein]. Ar gael o: <http://www.oecd.org/education/school/school-learning-organisation.pdf> [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

OECD (2017) *The Welsh Education Reform Journey: A rapid policy assessment*. Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://www.oecd.org/education/The-Welsh-Education-Reform-Journey.pdf> [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130415-Inf-guidance-cy.pdf> [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2017) *Ysgolion yng Nghymru yn gweithredu fel sefydliadau dysgu*. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://gov.wales/docs/dcells/publications/171122-slo-model-booklet-cy.pdf> [Defnyddiwyd 18 Ebrill 2018]